# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gorfodi*

## 11 Pŵer mynediad: amgylchiadau eraill pan fo gwarant yn angenrheidiol

(1) Caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi swyddog awdurdodedig awdurdod lleol i fynd i fangre, ac eithrio mangre breswyl, drwy rym os oes angen, os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol,

(b) ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw'r drosedd honno wedi ei chyflawni, ac

(c) bod gofyniad a nodir yn is-adran (2) neu (3) wedi ei fodloni.

(2) Y gofyniad yw—

(a) bod gofyn am fynd i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a

(b) bod hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon wedi ei roi i'r meddiannydd, neu i berson yr ymddengys yn rhesymol i'r awdurdod lleol ei fod yn ymwneud â rheoli'r fangre.

(3) Y gofyniad yw bod gofyn am fynd i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon, yn debygol o danseilio diben y mynediad.

(4) Mae'r warant yn parhau mewn grym hyd ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Adran 11.